Cymdeithas Bob Owen

# Y Casglwr

Pob Peth Printiedig

Rhif 45 Tanysgrifiad £3 y flwyddyn i'r Ysgrifennydd NADOLIG '91

## PENTYMOR

**OS YDYCH chi'n sylwi ar bethau felly fe welwch fod y rhifyn hwn o *Y Casglwr* yn rhif 45; sy'n golygu ein bod trwy ryw wyrth nid yn unig wedi goroesi am bymtheng mlynedd ond bod pob rhifyn wedi gweld golau dydd yn ei briodol amser. Mae'r diolch i chi sy'n prynu ac yn darllen ac, wrth gwrs, yn talu. A dyna destun llosg. Fe gadwasom y tâl blynyddol yn £2 nes y gorfodwyd ni — gan gostau'r post yn bennaf — i godi i £3. Ond na phoenwch — mi fedrwn gadw at yr un pris am y flwyddyn nesaf eto. I'n helpu i wneud hynny wnewch chi anfon eich £3 am 1992 YN AWR. Dim ots os oes dyled na wyddoch ei maint — anfonwch chi'r £3 ac fe ofala'r Ysgrifennydd dyfal fod ein Trysoryddes newydd sbon, effeithiol, yn eich atgoffa.**

**Lle i ddiolch hefyd i'r cyfranwyr — er yr hoffem weld mwy ohonoch yn gosod pin ar bapur. Croeso i gyfraniadau. A mawr ddiolch am help yr hysbysebwyr; a chofiwch, mân hysbysebion am ddim.**

## HUW WILLIAMS ar ganmlwyddiant LEILA MEGANE

# Y dyrys hawlfraint ar y Nefoedd!


MAE Leila Megáne, y cofiwn fod eleni yn ganmlwyddiant ei geni, yn un o'r ychydig gantorion hynny nad oes prinder defnyddiau yn ymwneud â hanes ei bywyd a'i gyrfa.

Ysgrifennodd Betty Roberts gyfres o ugain o erthyglau amdani yn y *Caernarvon and Denbigh Herald,* Hydref 7, 1956 — Mawrth 16, 1957 — ac yna, rhyw bedair blynedd ar bymtheg wedi marw'r gantores, cyhoeddwyd y gyfrol dderbyniol *Hyfrydlais Leila Megáne* (Megan Lloyd-Ellis), Gwasg Gomer, 1979. Trwy gyfrwng y rhain cawn gipdrem ar hanes bywyd y gantores — brodor o Fethesda, a merch Thomas Jones, Arolygydd yr Heddlu — ac fel y daeth yn un o unawdwyr enwocaf ei chenhedlaeth, a ffurfio cyfeillgarwch â llu o enwogion y byd cerddorol.

Mae'r stori bellach yn un mor gyfarwydd fel nad oes raid ei hail-adrodd; daeth Leila Megáne yn eilun cenedl, yn union fel y daeth David Lloyd mewn cyfnod diweddarach, ac y mae llawer ohonom sy'n dal i gofio am ei phersonoliaeth gyforiog ar lwyfan eisteddfod, ac am ei dawn i swyno teuluoedd ar eu haelwydydd trwy gyfrwng recordiau, cyn cyfnod y teledu a'r fideo.

Fe gofiwn fod casgliad o ddefnyddiau a gadwyd gan y gantores, yn cynnwys llythyrau, darluniau, a chofnodion o bob math, wedi cyrraedd i ddiogelwch ein Llyfrgell Genedlaethol rhyw ugain mlynedd ar ôl ei marw, a bod arolwg o'r casgliad gwerthfawr a defnyddiol hwnnw gan G. Milwyn Griffiths, wedi ymddangos yn Rhif 11 o'r *Casglwr* (Awst 1980), ynghyd â thri darlun o'r gantores a'i phriod, T. Osborne Roberts.

* * * *



Ceinwen Rowlands

GERDDORIAETH GAN

T. OSBORNE ROBERTS

Y NEFOEDD

(HEAVEN)

GEIRIAN GAN

IEUAN GWYILT

ENGLISH PARAPHRASE BY

REV T. D. PARRY

SUNG BY

MISS LEILA MEGANE

PRICE 2/ NET.

GERALD ORME
47. BOLINGBROKE ROAD.
WEST KENSINGTON.
LONDON. W.14.

*Sylwer fel mae'r copi yma o Y NEFOEDD yn rhoi lle amlwg i nodi, 'Sung by Leila Megane' i ychwanegu at y gwerthiant. Sylwer hefyd ar enw a chyfeiriad Gerald Orme — person nad oedd yn bod, ond yr archebion i'r cyfeiriad yn cael eu hail-gyfeirio i Leila Megane. Dim enw argraffydd na chyhoeddwr arall ar y copi — yr un yma'n eiddo i Ceinwen Rowlands.*

FEL Y DYWED Mr Griffiths yn ei ysgrif, efallai mai hunangofiant y gantores, *A Springtime of Song* (mewn teipysgrif) yw'r 'eitem bwysicaf a mwyaf cynhwysfawr' yng nghasgliad y Llyfrgell Genedlaethol, oherwydd yn hwnnw fe geir — yn ei geiriau hi ei hun — ei hanes o'i phlentyndod hyd ddiwedd ei gyrfa broffesiynol.

Rhyw bythefnos gwta wedi marw Leila Megáne ym mis Ionawr 1960, cefais fenthyg copi o'r hunangofiant hwnnw, sy'n ddyddiedig Ionawr 24, 1934. Nid cronicl o ffeithiau moel mohono, gan fod y gantores ynddo hefyd yn mynegi barn ar lu o faterion cerddorol, gan ddatgelu'r un pryd ambell i gyfrinach y llwyddwyd yn gelfydd iawn i'w chadw o gyrraedd y byd cerddorol cyn hynny.

Un o'r cyfrinachau ydoedd iddi gyhoeddi, dan yr enw 'Gerald Orme', gopïau o 'Y Nefoedd', yr unawd ar eiriau gan Ieuan Gwyllt a luniwyd yn arbennig ar ei chyfer gan ei phriod. Bu galw mawr am gopïau o'r gân honno ar ôl i'r gantores ei chanu ar lwyfannau cyngerdd, ac yn ddiweddarach trwy gyfrwng record fasnachol, a bu'n rhaid meddwl am ddull unigryw i werthu copïau ohoni!

Cyfeiriwyd archebion yn gyntaf at 'Gerald Orme', 'cyhoeddwr' dychmygol yn dwyn y cyfeiriad 47 Bolingbroke Road, West Kensington, Llundain, ac yna fe'u hail-gyfeiriwyd at y gantores i'w dosbarthu, a thrwy fabwysiadu'r dull hwnnw fe lwyddwyd i werthu rhai miloedd o gopïau o'r gân adnabyddus a phoblogaidd!

* * * *

MAE FY nghopi i o'r unawd, fel y'i cyhoeddwyd gan 'Gerald Orme', wedi ei ddyddio 1923, ond yr oedd argraffiad o'r un gân ar werth (cyn neu ar ôl hynny, nid wyf yn sicr) gan 'T. Osborne Roberts, Y Garreg Wen, Caernarfon' a'r clawr (yn wahanol i glawr argraffiad Gerald Orme) yn dwyn y geiriau: *'Dedicated to Thomas Jones, Esq., M.A., Ll.D. In memory of the late Sir Henry Jones'.*

Yn 1926 trosglwyddwyd hawlfraint 'Y Nefoedd' i gwmni Snell a'i Feibion, Abertawe, a bu gwerthiant pellach ar gopïau ohoni hyd at tua dechrau'r rhyfel. Yr un fu hanes ambell gân arall a ysgrifennwyd neu a drefnwyd gan T. Osborne Roberts yn arbennig ar gyfer Leila Megáne, gan gynnwys 'Cymru Annwyl' (Caernarfon 1925, a Snell 1941), ar eiriau Llew Tegid, a'r alaw 'Pistyll y Llan' (Snell 1927) na cheir enw 'Mynyddog', awdur y geiriau, ar y copi.